| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Medi 2012** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | **Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad / Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Corfforaethol Drafft 2012-17** |

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn delio â Chynllun Corfforaethol drafft y Cyngor 2012-17.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

I alluogi i'r Aelodau ystyried, a gwneud sylwadau ar fersiwn drafft y Cynllun Corfforaethol 2012-17 (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn) cyn y cyflwynir y drafft terfynol i'r Cyngor ar 9fed Hydref 2012. Bydd y Pwyllgor yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o reoli perfformiad y Cynllun Corfforaethol unwaith y bydd wedi ei gytuno.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried y Cynllun Corfforaethol drafft 2012-17 ac, yn amodol ar unrhyw newidiadau yr hoffai eu cyflwyno, yn argymell bod y Cyngor yn ei gymeradwyo ar 9fed Hydref 2012.

## 4. Manylion yr adroddiad

Bwriad y Cynllun Corfforaethol drafft 2012-17 yw bod yn ddogfen strategol lefel uchel i arwain cyfeiriad y Cyngor am y 5 mlynedd nesaf. Mae felly wedi ei ddatblygu gyda hynny mewn golwg ac nid yw'n cynnwys manylion popeth y bydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod y 5 mlynedd nesaf i gefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol. At hyn, gan ein bod eisiau i'r Cynllun Corfforaethol fod yn ddogfen hygyrch, nid ydym yn bwriadu cynnwys manylion yr holl ddangosyddion a mesurau perfformiad y byddwn yn eu defnyddio i arfarnu ein llwyddiant. Rydym felly yn bwriadu cynhyrchu dogfen ar wahân a fydd yn diffinio'r pecynnau y byddwn yn eu defnyddio i fonitro'r Cynllun, a bydd drafft o'r ddogfen hon yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod. Byddwn hefyd yn cyhoeddi Dogfen Cyflawni'r Cunllun Corfforaethol bob blwyddyn i roddi manylion yr hyn rydym yn disgwyl ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol benodol honno i gefnogi'r blaenoriaethau. Mae'r ddogfen hon yn cael ei drafftio ac unwaith eto bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn pennu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer cyfnod y Cyngor hwn (2012-17).

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Cefnogir y Cynllun Corfforaethol 2012-17 gan strategaeth ariannol 5 mlynedd a fydd yn amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf a ragwelir er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau newydd. Mae'r strategaeth hon, a gaiff ei hamlinellu yn y Cynllun Corfforaethol 2012-17, yn cael ei drafftio ar hyn o bryd ar ôl sesiwn cynllunio ariannol gydag Aelodau ar 11eg Medi 2012. Caiff drafft diwygiedig y Cynllun Corfforaethol, yn cynnwys yr wybodaeth hon, ei ddosbarthu yn y cyfarfod.

**7. Pa ymgynghori a fu ac a ymgymerwyd ag ymarfer Sgrinio Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb?**

Cyhoeddwyd y set ddrafft o flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod Awst 2012. Daeth y cyfnod ymgynghorol hwnnw i ben ar 11eg Medi 2012 ac mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad II i'r adroddiad hwn. Rhoddwyd tan Hydref 5ed 2012 i'r Cynghorau Tref a Chymuned ymateb, oherwydd nad ydynt yn cyfarfod yn ystod Awst. Cyflwynir rhestr lawn o'r sylwadau o'r ymgynghoriad i'r Cyngor gyda drafft terfynol y Cynllun Corfforaethol ar 9fed Hydref.

Ymgynghorwyd â'r Aelodau mewn nifer o ffyrdd yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol drafft ers pan gytunwyd y set ddrafft o flaenoriaethau corfforaethol gan yr Aelodau ar 31ain Gorffennaf:

- Grŵp Rheoli Ansawdd, 22ain Awst (gwirfoddolwyr o'r digwyddiad ar 31ain Gorffennaf)
- Cyfarfod Briffio'r Cabinet, 10fed Medi
- Sesiwn Anffurfiol y Cyngor: Ariannu'r Cynllun Corfforaethol, ar 11eg Medi

Mae'r Tîm Gwella Corfforaethol ar hyn o bryd yn cwblhau Asesiad o Effaith y Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar Gyfraddoldeb. Unwaith eto, dosberthir yr wybodaeth hon yn y cyfarfod.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Bydd fersiwn diwygiedig y Cynllun Corfforaethol, i'w ddosbarthu i'r Pwyllgor yn y cyfarfod, yn amlinellu lefelau tebygol y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Bydd hyn yn seiliedig ar y trafodaethau gyda'r Aelodau ar 11eg Medi 2012.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu  ar hyn o bryd, a bydd hyn yn cynnwys unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â’r Cynllun Corfforaethol newydd. Cyflwynir y Gofrestr Risg ddiwygiedig i’r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2012.

**10. Pŵer i Gymryd y Penderfyniad**

Mae’r Cynllun Corfforaethol yn elfen allweddol o Raglen Gwella Cymru (2010), sy’n cael ei chynnal gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi rolau a swyddogaethau pwyllgorau craffu.

**Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Gwella Corfforaethol

Ffôn 01824 706063